# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Granville Court**

**M & D Care Ltd**
**Granville House**
**44 Slate Street**
**Abertawe**
**SA6 8AY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Granville Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | M&D Care Operations Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15/12/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Granville Court yn wasanaeth cartrefol a chroesawgar sy'n cynnwys fflatiau hunangynhwysol unigol sy'n hyrwyddo sgiliau byw'n annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn annog y bobl i fod yn rhan o'u gofal a'u cymorth. Mae cynlluniau personol ar waith a ysgrifennwyd ar y cyd â'r bobl ac sy'n adlewyrchu eu hanghenion yn dda. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff ymroddedig ac ymrwymedig sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i gefnogi'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwelsom fod y staff yn cyfrannu at lesiant y bobl drwy ryngweithio'n gynnes ac yn sensitif â nhw. Mae'r gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a chaiff y bobl eu hannog i gyfrannu at y penderfyniadau a wneir am eu cynllun personol a'u cartref.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli yn weladwy iawn yn y gwasanaeth ac yn cefnogi'r staff drwy drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol. Mae trefniadau llywodraethu da ar waith sy'n llywio gwelliannau ac yn sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu. Mae rheolwr profiadol a gwybodus ar waith sy'n ymrwymedig i gefnogi'r bobl i ddatblygu eu sgiliau byw'n annibynnol a chyflawni eu dymuniadau a'u dyheadau. Mae'r gwasanaeth yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Cyn i bobl symud i Granville Court, caiff dogfen asesu ei chwblhau lle y gofynnir i'r bobl am eu hanghenion, eu hoff bethau a'u cas bethau, eu dymuniadau a'u dyheadau. Mae cynlluniau personol cyfredol ar waith sy'n adlewyrchu anghenion y bobl yn dda ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd neu gynrychiolwyr wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o adolygu'r cynlluniau hyn. Mae'r darparwr yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a hamdden a chaiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Dywedodd y bobl wrthym y gallant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, ac y gallant ddilyn hen hobïau a diddordebau a rhai newydd. Gwahoddir y bobl i fynychu cyfarfod misol lle y gallant drafod eu syniadau a'u pryderon. Gwelsom ryngweithio cynnes a thosturiol rhwng y staff a'r bobl. Rhoddodd y bobl adborth cyson gadarnhaol i ni am y staff a'r tîm rheoli yn ystod yr arolygiad.

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel, a chaiff gwiriadau cefndir priodol eu cynnal cyn iddynt ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu a dangosodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â hyn. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus i roi gwybod am unrhyw bryderon. Mae polisi diogelu ar waith sy'n adlewyrchu gweithdrefnau diogelu Cymru. Mae'r lefelau staffio yn briodol a chânt eu hadolygu wrth i anghenion y bobl newid. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau, a chedwir yr amgylchedd yn lân ac yn daclus. Mae'r amgylchedd yn ddiogel a gofynnir i ymwelwyr lofnodi llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu llesiant. Mae Granville Court yn adeilad mawr sy'n cynnwys saith fflat hunangynhwysol. Mae hyn yn hyrwyddo byw'n annibynnol a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol. Mae'r amgylchedd yn cynnwys ardaloedd cymunedol lle y gall y bobl ymlacio a chymdeithasu. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi'r amgylchedd a chael eu fflat eu hunain. Mae'r darparwr wedi buddsoddi yn y gwasanaeth ac mae llawer o waith uwchraddio wedi cael ei gwblhau ers yr arolygiad diwethaf. Mae gwaith ailaddurno yn mynd rhagddo ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer rhagor o waith adnewyddu.

Caiff iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl eu hybu. Gwelsom gofnodion o'r bobl yn cael eu cefnogi i fynd i apwyntiadau gofal iechyd. Gofynnir am gyngor a chymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda nhw i hybu llesiant y bobl a sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Dywedodd gweithiwr proffesiynol wrthym fod tîm rheoli'r gwasanaeth yn ymatebol ac yn gweithio'n agos gyda nhw.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi'n dda gyda chynlluniau personol ac asesiadau risg sy'n diwallu eu hanghenion. Yn ystod yr arolygiad gwnaethom edrych ar sampl o gynlluniau personol a gwelsom fod y rhain yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y cynlluniau'n amlinellu dymuniadau a dyheadau'r bobl ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl a'u cynrychiolwyr ac y cânt eu hannog i fod yn rhan o'r broses o adolygu eu cynlluniau. Gall y bobl gymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu gofal mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n gweddu orau iddynt, fel cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ar-lein. Gall y bobl nad ydynt am fod yn rhan o'r broses o adolygu eu gofal ddarllen cofnodion y cyfarfod yn ddiweddarach os byddant yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd y bobl wrthym yr ymgynghorir â nhw'n rheolaidd am eu cynllun a'u bod yn gwneud penderfyniadau am eu gofal bob dydd.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y bobl yn gwneud y pethau y maent yn mwynhau eu gwneud. Caiff y bobl eu cefnogi a'u hannog i fynd allan i'r gymuned, cymryd rhan mewn tasgau cadw tŷ a datblygu a chynnal hobïau. Mae'r gwasanaeth wedi ceisio cyfleoedd i'r bobl gofrestru ar gyrsiau addysgol yn ddiweddar. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys dogfennaeth fanwl am ddewisiadau'r bobl, eu hoff bethau a'u cas bethau. Caiff cyfranogiad mewn gweithgareddau ei gofnodi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau, gan ddweud *“Its brilliant, the staff are wonderful”.*

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar wybodaeth dda am eu cyfrifoldebau a sut i roi gwybod am bryderon. Mae polisi diogelu ar waith sy'n cael ei adolygu yn ôl yr angen. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ac yn gyfredol ar gyfer pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau am eu llety, eu gofal a'u cymorth.

Mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Gwnaethom gwblhau archwiliad meddyginiaeth a ganfu fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol mewn ystafell ddynodedig dan glo. Gwelsom hanes da o dymereddau'r ystafell feddyginiaeth yn cael eu gwirio'n ddyddiol ac roeddent o fewn yr ystod gywir. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd tymheredd yr ystafell feddyginiaeth yn uwch na'r terfyn diogel a argymhellir. Mae gan y gwasanaeth uned oeri ar waith, a gafodd ei throi ymlaen ar unwaith er mwyn gostwng tymheredd yr ystafell. Trafodwyd hyn â rheolwr ac Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth. Gwnaethant gytuno i fonitro tymheredd yr ystafell feddyginiaeth a chymryd camau pellach os bydd y tymereddau uchel yn parhau. Gwelsom fod polisi a gweithdrefn meddyginiaeth priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol. Roedd y ddogfennaeth yn ymwneud â meddyginiaeth yn gynhwysfawr ac yn llawn gwybodaeth a chaiff siartiau meddyginiaeth eu cwblhau'n briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae Granville Court yn adeilad mawr sydd wedi'i leoli yng nghanol tref Treforys. Mae'r adeilad yn cynnwys saith fflat hunangynhwysol, y mae dau ohonynt wedi'u dylunio i'w rhannu a phump ohonynt wedi'u dylunio fel fflatiau sengl. Mae pob fflat yn cynnwys cegin, ystafell ymolchi, lolfa ac ystafell wely sy'n hyrwyddo annibyniaeth a datblygiad sgiliau. Gwelsom dri o'r fflatiau hunangynhwysol. Roedd pob un ohonynt wedi'u haddurno'n unigol yn unol â chwaeth a dewisiadau personol. Mae cyfleusterau golchi dillad ym mhob fflat sy'n lleihau'r risg o groeshalogi. Mae lolfeydd cymunedol yn y gwasanaeth sy'n lân ac yn daclus. Mae un wedi lolfa wedi cael ei phennu'n ystafell gemau. Gwelsom fod y bobl yn treulio amser yn yr ardaloedd hyn. Ceir cegin lle gwelsom y bobl yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi prydau bwyd. Mae angen atgyweirio'r gegin bresennol a dywedodd y rheolwr wrthym fod cegin arall wedi cael ei harchebu ac y bwriedir ei gosod yn fuan iawn. Ceir swyddfa ddiogel lle y caiff ffeiliau eu storio. Y tu allan mae gardd fach lle gwelsom fod y bobl wedi bod wrthi'n garddio, a dywedodd y rheolwr wrthym am gynlluniau i osod decin mewn un rhan o'r ardd. Mae sgaffaldiau o'r adeilad drws nesaf wedi'u gosod yng Ngardd Granville Court ar hyn o bryd. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod wedi trafod hyn â'r cymydog yn ddiweddar ac wedi cael sicrwydd y bydd y sgaffaldiau'n cael eu tynnu yn yr wythnosau nesaf. Yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â hyn.

Wrth gyrraedd y gwasanaeth, gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr. Diben hyn yw sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel a chydymffurfio â rheoliadau tân. Mae tîm cynnal a chadw yn cael ei gyflogi yn y gwasanaeth ac yn ystod ein harolygiad, gwelsom swyddog cynnal a chadw yn paentio'r ardaloedd cymunedol. Gwelsom y bobl yn helpu'r tîm cynnal a chadw, a chânt eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith o gynnal a chadw'r amgylchedd.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth weithdrefnau ar waith i gynnal a chadw'r amgylchedd a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol, wythnosol a misol ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn ddiogel i'r bobl. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch tân gorfodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae tystysgrifau cyfredol ar gyfer diogelwch nwy, synwyryddion tân, diffoddwyr tân, trydan a chyfarpar trydanol. Roedd cofnod o ymarfer tân diweddar. Mae asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar gan ddarparwr allanol ac mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith ar gyfer y bobl. Caiff tymereddau'r dŵr eu profi'n ddyddiol, ac mae prawf legionella wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd o bump (da iawn) ar hyn o bryd. Gwelsom fod sylweddau sy'n beryglus i iechyd yn cael eu storio a'u rheoli'n briodol. Roedd y rhain yn cael eu cadw mewn ardal ddynodedig dan glo ac roedd asesiad risg wedi cael ei gwblhau ar eu cyfer.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl, eu teuluoedd a'r staff. Defnyddir yr adborth i lywio unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gwasanaeth. Cynhelir adolygiadau o ansawdd y gofal o fewn terfynau amser rheoliadol ac maent yn dangos trefniadau goruchwylio a llywodraethu da. Mae rheolwr ymrwymedig a phrofiadol ar waith a ddywedodd wrthym ei fod yn gweithio'n agos gyda'r Unigolyn Cyfrifol ac y teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n llawn ganddo. Gwelsom y tîm rheoli yn cwblhau archwiliadau wythnosol a misol ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn brydlon. Roedd y bobl yn canmol rheolwyr y gwasanaeth a gwnaethant ddweud wrthym “*I can go to them for anything.”*

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol a'r trefniadau ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth. Mae cynllun adnewyddu parhaus ar waith ac mae prosiectau adnewyddu mwy yn mynd rhagddynt neu wedi cael eu cynllunio. Roedd y lefelau staffio ar y dydd yn ymddangos yn briodol a gwelsom fod gan y staff ddigon o amser i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl ac y caiff hyn ei adolygu wrth i anghenion y bobl newid. Dywedodd y bobl eu bod yn teimlo bod digon o staff ar ddyletswydd i'w cefnogi i gyflawni eu canlyniadau.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff ymrwymedig a chymwys sy'n meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol. Mae pob aelod o'r staff yn cael rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant sefydlu sy'n rhoi cyflwyniad da iddynt i'r rôl a'r gwasanaeth. Gwelsom fatrics hyfforddiant sy'n dangos rhaglen hyfforddi a datblygu barhaus ar gyfer y staff. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ac mae dyddiadau ar gyfer sesiynau diweddaru wedi cael eu cynllunio ar gyfer y staff sydd eu hangen. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'i fod wedi cyflawni ei gymhwyster QCF lefel 5. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael llawer o hyfforddiant, a bod y rheolwr yn treulio amser yn egluro agweddau ar eu rôl iddynt.

Mae gan y gwasanaeth dîm o staff ymrwymedig sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Roedd ffeiliau'r staff a samplwyd yn cynnwys y ddogfennaeth ofynnol ac yn dangos bod gwiriadau recriwtio a chefndir cadarn ar waith. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cwblhau a'u hadnewyddu pan fo angen. Gwelsom fod y staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru neu'n gweithio tuag at hyn. Mae'r staff yn cael sesiynau

goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Gwelsom fod y rhain yn canolbwyntio ar lesiant y staff, eu hanghenion hyfforddiant a'u dyheadau proffesiynol. Cynhelir cyfarfodydd staff bob deufis ac roedd cofnodion y cyfarfodydd a welsom yn dangos trafodaethau agored. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym "*The manager is very supportive and easy to speak to*."

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/06/2024